# Llais Y FRO

PAPUR CYMUNEDOL
CYNGOR BRO MORGANNWG

Rhifyn 13
Hydref 2006

## CYNNWYS



Atodiad Addysg i Oedolion- Tud 9-12




Dyfodol Gwell - Tud 3




Ysbrydoliaeth - Tud 4




Ysgol yn cynnal Diwrnod Ailgylchu - Tud 6









## Mân newyddion

CAFODD rhyw 1,700 o ddisgyblion cynradd o bob rhan o'r Fro gyfle i ddilyn sesiynau hyfforddi achub bywyd yn ddiweddar fel rhan o gynllun blynyddol sy'n cael ei gefnogi gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Fro.

Bydd cynllun cenedlaethol 'Crucial Crew' yn cyflwyno ei neges ddiogelwch i ddisgyblion 10 ac 11 oed drwy drefnu 10 gwahanol weithdy mewn adeilad pwrpasol.

Cyflwynwyr y gweithdai rhyngweithiol hyn yw: Heddlu a Gwasanaeth Tân De Cymru; adrannau Safonau Masnachu, Glanhau a Rheoli Gwastraff, Diogelwch Pen Ffordd ac Iechyd a Diogelwch (safleoedd adeiladu) y Cyngor; Western Power Distribution; y Groes Goch; Inroads (sy'n rhybuddio'r erbyn camddefnyddio sylweddau) a Network Rail.



Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi ehangu cynllun arbennig sy'n rhoi cyfle heb ei ail i drigolion ac ymwelwyr 'wneud eu marc' ar Lanfa Penarth.

O dan y cynllun, caiff aelodau o'r cyhoedd brynu placiau pres cerfiedig i'w gosod ar y dec pren, a bydd yr holl elw'n mynd tuag at gynnal a chadw'r lanfa Fictorianaidd.

Tan yn ddiweddar, roedd y placiau i gyd yr un maint (100mm x 12mm). Roedd lle ar bob plac ar gyfer 20 symbol gan gynnwys bylchau, ac yr oedd y Cyngor yn eu gwerthu am £25 yr un. Erbyn hyn mae placiau ychwanegol mwy o faint (100mm x 36mm) sy'n costio £60 yr un ac yn cynnig digon o le ar gyfer 60 o symbolau.

**Cewch ffurflen gais yng Nghanolfan Groeso Penarth sydd ar agor bob dydd tan ddiwedd mis Medi. Mae croeso hefyd i chi e-bostio'ch cais i tourism@valeofglamorgan.gov.uk neu ffonio 01446 704754.**

# Bro well i bawb

Dyma olwg sydyn ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ers yr etholiadau diwethaf yn 2004 – math o adroddiad bach hanner tymor os liciwch chi.

Fel o'r blaen, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyrraedd ei holl dargedau perfformio ac yn dal yn y 25% uchaf yng Nghymru o safbwynt perfformio. Mae hefyd yn rheoli ei arian yn dda ond er bod ganddo ddigon o arian wrth gefn, mae cryn dipyn o waith i'w wneud yn ystod y tymor byr a'r tymor canolig.

Y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer Ysgolion yw'r prosiect mwyaf, ac yr ydym wedi addo gwario bron i £70m arni yn ystod y 12 mlynedd nesaf. Bwriadwn adeiladu ysgolion cyfun newydd sbon yn y Bont-faen, Sant Cyres a Llanilltud Fawr a gwario rhyw £25m ar wella ysgolion cynradd.

Hwn fydd buddsoddiad mwyaf y Cyngor presennol mewn asedau. Cafodd arian ei wario eisoes ar Neuadd y Dref a Llyfrgell Ganolog newydd y Barri.

Adnewyddwyd Gerddi a Thŷ Dyffryn a bwriadwn gwblhau'r gwaith sy'n aros i'w wneud ar bafiliwn glanfa Penarth. Mae'r Cyngor eisoes wedi codi: pafiliwn newydd ar gyfer Clwb Bowlio'r Bont-faen; llyfrgell newydd yn Sili; canolfan ieuenctid newydd yn y Rhws; canolfan deuluoedd yn Llanilltud Fawr (ar y cyd â phartneriaid); ysgol gyfun Gymraeg newydd (Ysgol Gyfun Bro Morgannwg); canolfan chwaraeon newydd a buddsoddi £3m yn Ysgol Gyfun y Barri.

Drwy gymorth grant, rydym hefyd wedi buddsoddi sawl miliwn o bunnoedd yn Ardal Adnewyddu Canol Penarth a'r rhaglen hon yw un o'r rhai mwyaf uchelgeisiol yn holl hanes y Cyngor. Bydd yn gwella cyfleusterau, adfer adeiladau pwysig ac yn sicrhau bod etifeddiaeth bensaernïol a diwylliannol y Fro mewn cyflwr llawer gwell nag yr oedd pan ddechreuais weithredu fel Arweinydd.

Er mwyn gwarchod y rhaglen uchelgeisiol hon, mae'r Cabinet yn argymell gohirio gwaith ar Ffordd Gysylltu Pentir Penarth nes bod grant datblygu ar gael, a chanolbwyntio ar godi maes parcio wrth ochr y lanfa yn y cyfamser. Mae disgwyl i'r rhaglen gostio mwy na £6 miliwn yn fwy erbyn hyn, a phetai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'i gynllun gwreiddiol, byddai prif brosiectau fel y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer Ysgolion mewn perygl.

Bydd materion rheoli a sefyllfa ariannol y Cyngor yn uchaf ym meddyliau'r Cabinet a'm meddwl innau bob amser.

Rydym eisoes wedi dechrau paratoi'r swyddfeydd dinesig ar gyfer sefydlu canolfan UnFro, ac edrychaf ymlaen at weld y rhan fwyaf o'ch ymholiadau'n cael eu trin o dan y drefn newydd. Bydd swyddogion hyfforddedig a medrus ar gael i ateb eich galwadau ffôn a'ch negeseuon e-bost. Hwy fydd yn gyfrifol am ateb eich cwestiynau a hyd yn oed am ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnoch o dan rai amgylchiadau.

Mae angen gwneud rhagor o waith o hyd ar ambell i gynllun polisi mawr fel y Strategaeth Dwristiaeth, Strategaeth y Celfyddydau a Strategaeth Adfywio'r Barri – y ffordd ymlaen. Ym mhob maes, hoffem petai polisïau'n cael eu llunio o safbwynt eang sy'n cydnabod effaith y Cyngor cyfan ar dwristiaeth a phwysigrwydd y gymuned fel defnyddwyr y polisïau hyn. Byddaf yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch pob polisi drafft.

Nod y Cyngor yw rhoi gwasanaeth effeithlon, effeithiol a phrydlon i holl bobl y Fro. I'r dibenion hynny, byddwn yn cynnal arolwg barn cleientiaid bob blwyddyn er mwyn cael gwybod pa ran o'r gwasanaeth sy'n achosi pryder i chi a'r ffordd orau o'i gwella.

Bu'r Cyngor yn brysur yn ystod dwy flynedd gyntaf y tymor pedair blynedd hwn a chafodd llawer iawn ei gyflawni. Er bod cryn dipyn i'w wneud o hyd, mae gennyf bob ffydd y daw'r Cyngor i ben â'r cyfan ac rwy'n sicr ei fod yn batrwm i eraill mewn ambell i faes.

Nid ydym yn bwriadu llaesu dwylo, serch hynny, ac edrychwn ymlaen at glywed eich ymateb pan ddeuwn i gysylltiad â chi. Cofiwch fod croeso bob amser i chi awgrymu ffyrdd o wella'r gwasanaeth.

*Diolch o galon unwaith eto*



*Y Cyng. Jeffrey James*
*Arweinydd Gweithredol*

## Cynlluniau newydd y Cyngor yn cipio dwy wobr

Mae'r Cyngor wedi dod i'r brig ddwywaith yn ddiweddar mewn cynllun gwobrwyo cenedlaethol.

Cafodd y gamp hon ei chydnabod yn seremoni wobrwyo flynyddol Cynllun Gwobrau Cenedlaethol Trafnidiaeth Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghastell Caerdydd. Cipiodd y Cyngor wobrau am 'y cynllun neu'r polisi gorau gan awdurdod lleol' ac am 'y prosiect trafnidiaeth gorau'. Ei bolisïau a'i ddulliau gweithredu ar gyfer cludo plant o'r cartref i'r ysgol a enillodd yn yr achos cyntaf. Y prosiect adnewyddu yng ngorsafoedd y Rhws a Llanilltud Fawr wrth ochr llinell adferedig Rheilffordd Bro Morgannwg a enillodd yn yr ail achos.

Marwolaeth drasig disgybl ysgol o'r Bont-faen, David Cunningham Jones a laddwyd mewn damwain yn Ystradowen a ysgogodd y Cyngor i lunio ei bolisïau a'i ddulliau gweithredu ar gyfer trafnidiaeth ysgol. Yn ystod y seremoni wobrwyo a drefnwyd gan Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth y DU, canmolodd y beirniaid y Cyngor am lwyddo i ddatrys nifer o broblemau.

Sefydlodd y Cyngor grŵp ymgynghorol mewn ymateb i'r cwest er mwyn adolygu arferion a dulliau gweithredu. Roedd y grŵp hwnnw'n cynnwys swyddogion, rhieni, cwmnïau bysiau, llywodraethwyr ysgolion, penaethiaid a chynrychiolwyr o'r Cynulliad.

O ganlyniad, dechreuodd weithredu cynlluniau newydd er mwyn rhwystro plant rhag camymddwyn ar fysiau ac ar ôl edrych ar bob rhan o'r broblem, penderfynodd wneud nifer o newidiadau. Erbyn hyn, mae camerâu teledu cylch cyfyng ar nifer o fysiau, sedd ar gyfer pob plentyn a rheolau pendant ar gyfer trin ymddygiad annerbyniol a gwahardd disgyblion rhag teithio pan fo angen. Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau bod ysgolion, cwmnïau bysiau a rhieni'n gwybod am yr holl bolisïau. Mae cyrsiau erbyn hyn sy'n codi ymwybyddiaeth o'r broblem ymhlith gyrwyr a chwmnïau bysiau a chyrsiau hyfforddi mewn ysgolion ar gyfer y plant.

Mae'r gwaith adnewyddu yng ngorsafoedd y Rhws a Llanilltud Fawr a gafodd ei gwblhau'n gyflym iawn ac o fewn y gyllideb, hefyd yn glod i'r Cyngor. Yn sgîl yr holl waith datblygu, mae cyfleusterau parcio a theithio a chyfleusterau ar gyfer tacsis, bysiau a seiclwyr hefyd erbyn hyn. Yn y Rhws, bu'r Cyngor yn cydweithio â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd er mwyn sicrhau bod bysiau ar gael bob amser i gludo teithwyr i'r maes awyr yn rhad ac am ddim.

## Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2006/07

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | Diwedd |
|---|---|---|---|
| Hydref 2006 | Llun 24 Medi 2006 ★ | Llun 30 Hydref 06-Gwener 3 Tachwedd 06 | Gwener 22 Rhagfyr 06 |
| Gwanwyn 2007 | Llun 8 Ionawr 2007 | Llun 19 Chwefror 07-Gwener 23 Chwefror 07 | Gwener 30 Mawrth 07 |
| Haf 2007 | Llun 16 Ebrill 2007 | Llun 28 Mai 07-Gwener 1 Mehefin 07 | Llun 23 Gorffennaf 07★ |

★ Bydd dydd Llun 4 Medi 2006 a dydd Llun 23 Gorffennaf 2007 yn ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd ym mhob ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Caiff ysgolion unigol ddewis pryd i gymryd y tri diwrnod hyfforddiant mewn swydd sydd ar ôl.

★ Rydym yn disgwyl i ysgolion gymryd y diwrnod hyfforddiant hwn un ai ar ddydd Llun 23 Gorffennaf 2007 neu ar ryw adeg arall sy'n gyfleus i staff yr ysgol h.y. ar y penwythnos, yn ystod y gwyliau neu mewn sesiynau min nos.

Bydd pob ysgol ar gau ar ddydd Llun 7 Mai 2007 ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

**Nadolig**
Dydd Llun 25 Rhagfyr 2006

**Y Pasg**
Dydd Gwener y Groglith 6 Ebrill 2007
Dydd Llun y Pasg 9 Ebrill 2007

**Gwyliau Banc Mai**
Dydd Llun 7 Mai 2007
Dydd Llun 28 Mai 2007

Cyhoeddwyd gan Swyddfa Gyfathrebu Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU Ffôn:01446 709454 e-bost: valewaves@valeofglamorgan.gov.uk



Llun y clawr yw teulu o gerddwyr ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg. (h) Hawlfraint y Goron 2006-08-17





VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Llais Y FRO

# Gwell dyfodol i rieni ifainc

Mae cleientiaid wedi bod yn canu clodydd prosiect newydd unigryw sy'n helpu rhieni i ddod yn ôl i fyd gwaith.

Bwriad Genesis yw symud y rhwystrau sy'n cadw rhieni rhag ailgydio mewn addysg a hyfforddiant a chael swyddi, a bydd hefyd yn talu costau gofal plant y rhai sy'n bodloni'r meini prawf.

Mae'n rhan o brosiect ar draws Cymru sy'n cysylltu â phrif gynlluniau'r Llywodraeth ganolog ac yn cael ei ariannu'n rhannol o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy raglen Amcan 3.

Tîm y prosiect yw Rachel Nugent-Finn a Vickie Wright a gellwch ddod o hyd i'w swyddfa yn 1 Tŷ'r Heddlu, Heol Winton, y Barri.

Dwy fam ifanc a gafodd fudd o'r prosiect yw Donna Dwyer a Marina Jones, ill dwy o'r Barri.

Cafodd Donna, sy'n fam i ddau o blant, swydd ran-amser ar ôl ennill cymwysterau a thystysgrifau mewn teipio a chyfrifeg ond dechreuodd 'fynd i banics' pan sylweddolodd nad oedd neb i edrych ar ôl y plant.

Cafodd ei chyfeirio at Genesis, ac meddai Rachel: "Llwyddais i drefnu gofal noddedig ar gyfer y plant yng Nghanolfan Blant Gibbonsdown a bydd cyfle nawr i Donna gychwyn ar ei swydd newydd gan wybod eu bod yn cael gofal da".

Dywedodd Donna: "Mae Genesis wedi achub fy nghroen. Doedd gen i neb i edrych ar ôl y plant, ac roeddwn wedi dechrau poeni go iawn. Llwyddodd Genesis i ddatrys yr holl broblemau ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar".

Dywedodd Marina, sy'n gofalu am ei mab Jay-Lee ac wedi dilyn dau gwrs coleg erbyn hyn: "Mae Genesis wedi rhoi'r gallu i fi fynd allan a chwilio am gyrsiau a fydd o gymorth i fi yn y dyfodol. Roeddwn yn teimlo o'r diwedd fy mod yn camu fesul tipyn tuag at well dyfodol i fi a'r teulu".

Rhywun arall a gafodd gymorth gan Genesis oedd 'LS': "Roedd Genesis wedi fy helpu i gael hyd i swydd", meddai "ac erbyn hyn rwy'n gobeithio mynd i'r coleg ym mis Medi ac ennill cymwysterau ar gyfer trin gwallt".

Dywedodd Rachel: "Mae'r Fro'n bwysig iawn i fi erioed, ac rwy'n edrych ymlaen yn arw at weithio gyda theuluoedd er mwyn sicrhau bod gan bawb gyfle am well dyfodol".

**Am fwy o fanylion ffoniwch Rachel neu Vickie ar (01446) 730852.**



*Marina Jones a'i mab Jay-Lee sydd i'w gweld yn y llun gyda Rachel Nugent-Finn yw un o'r teuluoedd sy'n manteisio ar waith Genesis*

# Bwyd a hwyl i'r holl deulu

MAE un o ddigwyddiadau teuluol mwyaf poblogaidd De Cymru wedi cael hwb ariannol gan y Cyngor yn ddiweddar – ac mae'n addo bod yn well eleni nag erioed.

Cafodd Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen siec am £10,000 oddi wrth Arweinydd y Cyngor y Cyng. Jeffrey James wrth i'r cynlluniau ar gyfer yr ŵyl eleni (29-30 Hydref) gael eu datguddio. Mae'r ŵyl eisoes wedi derbyn £10,000 oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, £5,000 oddi wrth Capital Region Tourism a nawdd gan Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Spar.

Roedd yr ŵyl fwyd anhygoel hon yn llwyddiant ysgubol y llynedd. Heidiodd mwy na 12,000 o bobl i'r dref fach hon yn y Fro o bob rhan o Gymru a rhannau o Brydain mor bell i ffwrdd â Chaerefrog er mwyn profi ei danteithion.

Mae pob argoel y bydd yr ŵyl yn fwy llwyddiannus eleni nag erioed a bydd llawer o weithgareddau ar gyfer plant y tro hwn hefyd. Felly os ydych am gael gwyliau bach penwythnos gyda'r teulu dyma'r union le i chi.

Bydd croeso i blant o bob oedran alw heibio i drelar arddangosfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn dangos faint a wyddant am faeth.

Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal wrth ymyl Marchnad brysur Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a fydd yn orlawn o gynnyrch lleol traddodiadol a bwydydd o safon o bob rhan o Gymru a Phrydain.

Byddwn hefyd yn herio plant i gymryd rhan mewn cymaint o wahanol chwaraeon ag sy'n bosibl mewn hyn a hyn o amser yn y sialens 'Rhowch Gynnig ar Chwaraeon' a fydd yn cael ei chynnal yng nghanolfan hamdden y Bont-faen.

Bydd meithrinfa drwyddedig ar gael ar gyfer rhieni sydd am gael golwg hamddenol o gwmpas yr ŵyl a'r dref. Os ydych am i'ch plentyn ddod gyda chi, bydd lle i adael y goets yn rhad ac am ddim yng ngofal un o'n cynorthwywyr.

Bydd arddangosiadau a sgyrsiau am fwyd yn rhan fawr o raglen y penwythnos, a chewch weld y sieff teledu ac awdur 'The Accidental Vegetarian' Simon Rimmer a rhai o gogyddion gorau De Cymru yn yr ŵyl.

Yn dilyn ei llwyddiant ysgubol y llynedd, bydd Pabell Siampên eto eleni a bydd cerddoriaeth fyw a lle yn y babell i ymwelwyr ymlacio a chael hoe ar ôl crwydro'r ŵyl.

Dywedodd cadeirydd yr ŵyl, John Davies: "Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Cyngor am roi'r arian ychwanegol i ni.

"Bydd yn sicr yn ŵyl i'w chofio gydag adloniant o safon ar gyfer pobl o bob oedran ".



*Y Cyng. Jeffrey James, Arweinydd y Cyngor, John Davies, cadeirydd Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen a phobl ifanc o'r dref yn dathlu'r £10,000 a gyfrannodd yr awdurdod tuag at yr ŵyl eleni*

## Mân newyddion



MAE staff a chwsmeriaid canolfannau hamdden y Fro a'r cyhoedd wedi rhoi'n hael o'u hamser er mwyn cefnogi dau weithgaredd a fu'n codi arian i "Wythnos Cymorth y Galon".

Roedd y gweithgareddau'n rhan o ymgyrch a fydd yn cael ei threfnu bob blwyddyn gan Sefydliad Prydeinig y Galon er mwyn codi ymwybyddiaeth o glefyd y galon. 'Tours des Capitals' oedd yr un cyntaf – sef sialens seiclo drwy gynllun iechyd a ffitrwydd LifeStyle a gafodd ei threfnu ar y cyd gan ganolfannau'r Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth. Yr ail oedd casgliad a drefnwyd drwy ofyn i unigolion yn nosbarthiadau erobeg 'Body Blast' ac 'Young at Heart' yn y Bont-faen wisgo dillad nos yn y dosbarth. Rhwng popeth, llwyddwyd i gasglu mwy nag £850.

MAE sefydliad MIND yn y Fro sy'n cael llawer o gymorth ariannol gan y Cyngor, wedi cael ei gydnabod yn seremoni Gwobrau Elusennau 2006.

Elusen sy'n darparu canolfannau adnoddau arbennig, prosiectau galwedigaethol a phrosiectau celf yn y Fro ar gyfer pobl sy'n gwella ar ôl problemau iechyd meddwl yw MIND.


Dywedodd Daniel Phelan, trefnydd y seremoni: "Roedd y beirniaid yn chwilio am ddulliau rhagorol o weithredu a fyddai'n siampl i sefydliadau eraill. Teimlai fod MIND yn haeddu cael ei gydnabod yn arbennig am iddo wneud cymaint o wahaniaeth yn yr ardal".

Dywedodd Cyfarwyddwr MIND yn y Fro, Paul Clarke: "Mae'r wobr yn adlewyrchu'n llwyddiant o safbwynt harneisio gallu a sgiliau pobl sy'n gwella ar ôl problemau iechyd meddwl ac yn dangos ein bod yn barod i gydweithio".

FEL RHAN o'i waith addysgu, ymwelodd Tîm Iechyd Amgylcheddol y Cyngor â nifer o ysgolion yn yr ardal yn ddiweddar er mwyn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo fel y ffordd fwyaf effeithiol o rwystro afiechyd a haint.

Roedd cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymarfer golchi dwylo a oedd yn defnyddio blwch golau uwchfioled ac eli 'hudol' i ddangos pa rannau o'u dwylo a oedd heb eu golchi'n lân.







Dewch i Wyl Bwyd a Diod y Bont-faen (29-30 Hydref) a mwynhau arddangosiadau coginio, gweithgareddau i blant, arddangosfeydd, cerddoriaeth fyw a marchnad sy'n gwerthu cynnyrch lleol traddodiadol

## Mân newyddion



Ystradowen a ddaeth i'r brig eleni yng nghystadleuaeth Pentref Taclusaf y Fro.

Dywedodd yr Arglwyddes Webb (Uchel-Siryf De Morgannwg a phrif feirniad y gystadleuaeth eleni): "Roedd pob gardd unigol fel pin mewn papur a'r lawntiau'n edrych fel petai arbenigwr torri porfa wedi bod wrthi. Doedd dim chwyn nac ysbwriel i'w gweld yn unman".

Daeth Gwenfô'n ail, Silstwn yn drydydd a Phendeulwyn a Thregolwyn yn gydradd drydydd yn y gystadleuaeth.

Yr enillwyr yn y dosbarth iau oedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid (rhwng 6 ac 11oed – gwelwch y llun uchod) ac Ysgol Feithrin Tregatwg (o dan 5 oed).

Talodd Basil Watkins, cadeirydd y gystadleuaeth, deyrnged i ddau o'r prif noddwyr – Lafarge Cement UK (Gweithiau Aberddawan) a'r Cyngor – am eu holl gefnogaeth.

'Byw bywyd cytbwys' yw thema ffair arbennig a fydd yn cael ei chynnal ym mis Hydref yn Neuadd Goffa'r Barri.

Cafodd y ffair hon ei threfnu fel rhan o Fis Iechyd Menywod gan Dîm Heneiddio'n Dda Cymorth i'r Henoed (Caerdydd a'r Fro), Tîm Iechyd Cyhoeddus lleol a'r Cynghrair Iechyd.

Bydd yn cael ei chynnal rhwng 2 a 5pm ar 19 Hydref wedi'i noddi gan y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Y bwriad fydd darparu pob math o wybodaeth a gweithgareddau am iechyd, lles a ffordd o fyw ar gyfer menywod dros 45 oed gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfnod newid bywyd ac ar ôl hynny.

# 'Peidiwch ag ofni', meddai Judy

Wythnosau'n unig ar ôl cael ei labelu'n berson difrifol dew, mae menyw wedi goresgyn ei holl ofnau ynglŷn ag ymuno â champfa a dod yn aelod o gynllun 'Heini am Oes'.

Cafodd Judy Ward ei chyfeirio at 'Heini am Oes' gan ei nyrs ymarfer, a diben y cynllun o dan nawdd Cronfa Fawr y Loteri yw gwella iechyd pobl a'u gwarchod rhag clefyd y galon.

Dywedodd Emma Cresswell, cyd-drefnydd Heini am Oes: "Bydd y rhaglen gyfeirio'n parhau am 12 wythnos. Y bwriad yw helpu pobl i deimlo'n well neu wella eu cyflwr meddygol drwy wneud mwy o ymarfer corff. Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyfeirio cleifion at dîm o hyfforddwyr cymwys yng nghanolfannau hamdden y Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth.

Mae Judy'n dioddef o glefyd siwgr math II a gwynegon sy'n cyfyngu ar y math o weithgareddau y mae'n gallu eu dilyn. Gofynnodd i'w meddyg teulu ei chyfeirio at y cynllun, ac mae wedi gwneud cynnydd anhygoel mewn byr amser. Bu Judy'n ddigon anffodus i golli cyfaill agos flwyddyn yn ôl a oedd hefyd yn dioddef o glefyd siwgr. Wedi'i hysgogi gan ysfa am fyw'n hir er mwyn ei theulu ifanc, aeth ar sgowt gyda'i merch Vykki er mwyn chwilio am gampfa addas.

Canolfan Penarth, yn ôl pob golwg, a oedd yn cynnig y cyfleusterau a'r awyrgylch gorau. Er iddi ohirio ei chyfarfod cyntaf yn y fan honno, ni fu'n hir cyn trefnu un arall, ac roedd tîm Iechyd a Ffitrwydd LifeStyle yn sicrhau ei bod yn teimlo'n hollol gartrefol o'r dechrau. Gyda chymorth ei merch, sydd wedi'i chefnogi bob cam o'r ffordd, dechreuodd fynd i'r gampfa ac ni fu pall ar ei chynnydd ers hynny!

Mae Nerys James, un o gynorthwywyr Iechyd a Ffitrwydd LifeStyle wedi llunio rhaglen arbennig ar gyfer Judy sy'n cynnwys prawf iechyd ac roedd yn synnu o weld ei bod yn dioddef o ddiffyg dŵr. Bydd Judy yn dilyn trefn deirgwaith yr wythnos sy'n cychwyn gydag ychydig o gerdded neu seiclo, a dechreuodd godi rhywfaint o bwysau ysgafn hefyd erbyn hyn. Llwyddodd i gael gwared ar fraster a magu cyhyr ers iddi fod yn rhan o'r cynllun.



*Judy Ward, Cynorthwy-ydd LifeStyle Nerys James, Cyd-drefnydd Heini am Oes Emma Cresswell a Vykki, merch Judy*

Mae'r ymarfer corff wedi helpu i reoli lefel y siwgr yn ei gwaed, ac ar ôl colli tua stôn, mae'n dweud ei bod yn teimlo'n ffantastig. Mae'r cyfarpar Technogym diweddaraf o gymorth i dynnu ei sylw oddi ar y gwaith caled ac yn ystod ei hymarferion, bydd yn gwylio'r newyddion a chafodd gyfle hyd yn oed i ddilyn gornest Wimbledom.

Dyma gyngor Judy i unrhyw un sy'n meddwl ymaelodi â chynllun Heini am Oes:

"Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol eich cyfeirio. Ewch i gael golwg ar y gampfa'n gyntaf a byddwch yn barod i ymddiried yn staff LifeStyle. Byddwch yn ddigon gonest i gyfaddef eich bod yn nerfus o'r dechrau a byddan nhw'n hala i chi deimlo'n gartrefol ar unwaith".

Er mawr glod iddi, mae Judy, erbyn hyn yn gwisgo ffrogiau pedwar maint yn llai. Roedd hi mor hapus ar ddiwedd ei rhaglen 12 wythnos nes iddi ymuno â'r cynllun yn barhaol.

Mae Jon Rogers, Rheolwr Gwaith LifeStyle a Heini am Oes wedi'i llongyfarch ar ei chynnydd, ac meddai: "Gyda'i theulu a'n tîm ffantastig ni i'w chefnogi, mae Judy yn ysbrydoliaeth wirioneddol. Gobeithio y bydd pobl eraill yn darllen am ei champ a dilyn ei hesiampl. Fel y gwelwch wrth yr enw, mae'r cynllun yn eich annog i gadw'n heini ac mae'n rhoi cyfle hefyd i chi fynd ati o ddifrif i newid eich ffordd o fyw".

**Am fwy o wybodaeth am Heini am Oes ffoniwch (01446) 725959. Am gynllun Iechyd a Ffitrwydd LifeStyle ffoniwch (01446) 732457.**

## Dod ag ychydig o wres i'r Fro

Mae cynllun yn y Fro sy'n helpu i gadw mwy a mwy o bobl rhag peryglu eu bywydau drwy fyw mewn cartrefi oer a llaith.

Iechyd drwy Wres yw enw'r cynllun a gafodd ei lansio bedair blynedd yn ôl. Erbyn hyn, mae wedi llwyddo i hyfforddi mwy na 700 o weithwyr allweddol sydd eisoes wedi cyfeirio dros 800 o drigolion er mwyn eu helpu a'u cynghori

Mae gwaith inswleiddio a thrwsio ac ailosod systemau gwresogi a gafodd ei wneud drwy'r cynllun wedi bod o fudd mawr i bobl.

Prosiect ar y cyd gwerth £10m yw Iechyd drwy Wres sy'n cael ei gynnal ar draws Prydain. Ei bartneriaid yn y Fro yw'r Cyngor, cwmni npower, cynllun Gweithredu dros Ynni yn y Gymdogaeth, Y GIG ac amryw o gyrff iechyd a chymunedol eraill yn yr ardal.

Mae achos menyw 57 oed o'r Barri'n dangos y math o gymorth sydd ar gael drwy'r cynllun. Roedd y fenyw hon yn methu â gweithio oherwydd cefn tost ac yn treulio llawer o amser yn y tŷ'n isel ei hysbryd. Roedd ganddi hen system wresogi drwy'r tŷ a oedd wedi cael ei thrwsio droeon ac ni allai fforddio prynu un newydd.

Trefnodd Iechyd drwy Wres i'w chartref gael ei adolygu, a chafodd system wresogi ei osod a'r llofft a'r gwelydd dwbl eu hinswleiddio'n sgîl hynny. Cronfa Argyfwng y cynllun a chronfa ymddiriedolaeth ar gyfer nyrsys a dalodd am yr holl waith. Bydd y fenyw hefyd yn cael £20 yr wythnos oddi wrth yr ymddiriedolaeth am weddill ei hoes.

Bydd prosiect Iechyd drwy Wres yn hyfforddi gwirfoddolwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gweithwyr yn y gymuned ar gyfer chwilio am drigolion sydd mewn perygl. Ar ôl cael eu hyfforddi, bydd y gweithwyr hyn yn gallu cyfeirio pobl fregus at bob math o grantiau i'w helpu i addasu eu cartrefi ar gyfer defnyddio ynni'n fwy effeithiol.

Dywedodd Hannah Jones, cyd-drefnydd y cynllun yn y Fro: "Mae hyn yn cael effaith fawr ar gysur pobl yn eu cartrefi, maint eu biliau ynni a'u hiechyd a'u lles yn gyffredinol".

Mae'r Gronfa Argyfwng – sy'n cael ei hybu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – yn helpu pobl fregus sydd un ai'n methu â manteisio ar gynlluniau ar sail prawf moddion neu mewn gormod o argyfwng i aros am y cymorth arferol.

**Os byddwch yn gweithio gyda phobl fregus yn rheolaidd ac yr hoffech gael hyfforddiant o dan y cynllun, mae croeso i chi ffonio Hannah ar 01446 709847 neu anfon neges e-bost i hljones@valeofglamorgan.gov.uk**

## Peidiwch â cholli'ch hawl i bleidleisio

Mae'n rhaid i ni lunio a chyflwyno Cofrestr newydd o Etholwyr erbyn 1 Rhagfyr, felly dylai fod gan bob cartref yn y Fro ffurflen ganfasio flynyddol erbyn hyn.

Fel y gwyddoch, system sydd wedi'i threfnu er mwyn i chi allu pleidleisio yw Cofrestr Etholwyr y Fro ac os nad yw'ch enw ar y Gofrestr ni fydd gennych bleidlais.

Bydd asiantaethau credyd hefyd yn defnyddio'r Gofrestr er mwyn cadarnhau manylion a chyfeiriadau pobl sydd wedi cyflwyno cais am forgais, benthyciad, cytundeb credyd, agor cyfrif banc ac ati. Mae perygl i chi fethu â chael credyd os nad yw eich enw ar y Gofrestr.

Os nad ydych eisoes wedi llenwi'ch ffurflen ganfasio, gwnewch hynny ar unwaith a'i hanfon yn ôl yn yr amlen bwrpasol.

**Am fwy o wybodaeth am Gofrestr Etholwyr y Fro ffoniwch Adran Cofrestru Etholiadol y Cyngor ar (01446) 709304/305/358.**



Y lluniau ar ben y dudalen o'r chwith yw Seiclwyr yn y Wig; Pysgota yn Hen Harbwr y Barri; moroedd garw ym Marcroes; crychydd ym Mhwll Pitcot, Saint-y-brid a Glanfa Penarth





VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Llais Y FRO

# Rebecca'n plymio i yrfa newydd

Mae un o brentisiaid y Cyngor – Rebecca Bennett – yn prysur ennill bri mewn diwydiant sydd i bob pwrpas yn dal yn gadarnle dynion.

Mae Rebecca, sy'n dilyn cwrs CGC yng Ngholeg y Barri ar hyn o bryd yn llwyddo'n rhyfeddol i ymdopi â'i holl waith coleg a pharhau i weithio yn ystod y dydd. Cafodd ei brwdfrydedd a'i hymroddiad i'w phwnc eu cydnabod yn ddiweddar pan enwyd hi'n Fyfyriwr Plymio'r Flwyddyn 2004/05.

Fel yr unig ferch yn ei grŵp blwyddyn sy'n dilyn y cwrs cychwynnol ar gyfer plymeriaid, meddai Rebecca: "Dyw hi ddim yn broblem o gwbl dysgu gwaith plymio gyda chriw o fechgyn. Rwy'n dod ymlaen yn well gyda bechgyn ac yn cael llawer mwy o hwyl. Rwy wrth fy modd!"

Yn ôl y ffigyrau presennol, mae rhyw 160,000 o blymeriaid yng Nghymru ar hyn o bryd ac un y cant o'r rheiny'n unig yn ferched.

Mae'r diwydiant adeiladu wedi sylwi bod mwy o'r cyhoedd yn gofyn am ferch i wneud gwaith plymio yn eu cartrefi'r dyddiau hyn, felly mae galw mawr am sgiliau Rebecca.

Yn ôl 'ymarfer swyddi addas' a gynhaliwyd gan Wasanaeth Gyrfaoedd Porth yr Ifainc yn y Barri, mae Rebecca'n 'berffaith addas ar gyfer dysgu gwaith plymio' ac meddai: "Roedd y rhan fwyaf o'r teulu a'm ffrindiau'n chwerthin ar fy mhen ar y dechrau. Doedden nhw ddim yn meddwl y byddwn i'n dal ati ond maen nhw wedi bod yn wirioneddol gefnogol ac yn falch iawn ohono' i erbyn hyn".

Pinacl y cwrs hyfforddi i Rebecca oedd dod yn Brentis Modern o dan gynllun y Cyngor ddeunaw mis yn ôl a chael ei sicrhau gan swyddogion ei bod yn hen ddigon da i 'gyrraedd y nod'.

Esboniodd Adam Edwards, Rheolwr Addysg a Gwaith Cynnal a Chadw Adeiladau Cyhoeddus: "Bydd y coleg lleol ar y cyd â Chymdeithas Hyfforddi'r Fro'n cynnig disgyblion ar gyfer eu hystyried a chaiff cyfweliadau eu cynnal wedyn. Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i ddenu pobl i ddysgu crefftau sy'n brin ar hyn o bryd yn y diwydiant adeiladu".

Mae Rebecca wrth ei bodd â'r holl brofiad ymarferol y mae'n ei gael drwy fod yn brentis. "Bydda' i'n dysgu rhywbeth newydd bob dydd – a fydd dim un diwrnod diflas," meddai. "Rwy ar f'ennill mewn pob ffordd. Byddwn yn cymeradwyo'r cwrs i unrhyw un ond mae'n rhaid i chi fod yn hollol o ddifrif am y peth".



*Rebecca Bennett*

# Beth sydd ymlaen yn y Fro?

## Medi

**Mawrth 12 – Noson Ystlumod yng Ngerddi Dyffryn**
Dewch i'r ganolfan addysg ar gyfer sgwrs â lluniau am ystlumod cyn cael golwg o gwmpas y gerddi yng nghwmni arweinwyr. Gwisgwch ddillad twym a dewch â thortsh. Hyn a hyn o le'n unig sydd, felly ffoniwch 029 2059 3328 er mwyn cadw lle.

**Sadwrn 16 a Sul 17 – Penwythnos Treftadaeth**
**Pentref Canoloesol Cosmeston**
Bydd y tâl i fynd i mewn i'r pentref yn llai yn ystod y penwythnos hwn er mwyn dathlu Treftadaeth Ewrop. Dewch i brofi Cymru Ganoloesol rhwng 11am a 5pm. Ffoniwch 029 2070 1678 am fwy o fanylion.

**Sul 17 – Sioe Bentref Genedlaethol**
**Gerddi Dyffryn**
A hoffech chi ymddangos ar raglen newydd BBC1 sy'n cael ei chyflwyno gan Alan Titchmarch? Categorïau'r gystadleuaeth yw: llysiau anferth; llysiau arddangosfa; addurno cacenni; gwneud jam a threfnu blodau. Mae croeso i chi gysylltu â ni hefyd os ydych yn awyddus i gael stondin fach yn y sioe.
**Os hoffech gymryd rhan ffoniwch 020 7432 2935 neu anfonwch neges e-bost i gbvs@12yard.com. Am fwy o fanylion ewch i www.bbc.co.uk/gardening**

**Sul 17 – Captain Corelli's Mandolin**
**Theatr Neuadd Goffa'r Barri**
Mae'r rhamant epig hon yn cael ei llwyfannu fel opereta gyda storïwr, cerddorion, pypedau, beic modur a gafr! Bydd tocynnau ar werth yn y swyddfa docynnau am £8.50 a £6.50. Ffoniwch 01446 738622.

**Sadwrn 23 a Sul 24 – Diwrnod Agored Treftadaeth Ewrop yng Ngerddi Dyffryn**
Cewch fynd i mewn i'r Gerddi'n rhad ac am ddim rhwng 10am a 6pm. Ffoniwch 029 2059 3328 am fwy o wybodaeth.

**Sadwrn 30 – Ffidil y Diafol**
**Theatr Neuadd Goffa'r Barri**
Noson o gerddoriaeth a storïau o 5.30pm ymlaen. Bydd tocynnau ar werth yn y swyddfa docynnau am £8.50 a £6.50. Ffoniwch 01446 738622.

**Sadwrn 30 – Pedwarawd Antonio Forcione**
**Canolfan Gelf Sain Dunwyd**
Gitarydd acwstig o'r Eidal sydd wedi ennill bri rhyngwladol am ddatganiadau sy'n cyfuno medr technegol disglair â dyfnder emosiynol. Byddwch yn barod i chwerthin, llefain a chael eich ysbrydoli. Bydd y sioe'n cychwyn am 8pm a bydd tocynnau ar werth am £13.50 (oedolion) a £12 (gostyngiadau). Ffoniwch y swyddfa docynnau (01446 799100) neu ewch i www.stdonats.com am fwy o fanylion.

**Sadwrn 30 – 6 Hydref**
**Gŵyl Gelfyddydau Llanbedr-y-fro**
Bydd yr ŵyl yn dathlu ei 10fed pen-blwydd drwy gynnal wythnos o gelf, cerddoriaeth a drama gan gynnwys dawns ddiwedd haf gydag Abba Dayz a pherfformiadau gan y cyfansoddwr a'r canwr Mal Pope a Phumawd Sue Richardson. Er mwyn cadw lle ymlaen llaw neu gael copi o'r rhaglen ddigwyddiadau gyflawn ffoniwch 01446 760602, anfonwch neges e-bost i paulettehunter@hotmail.com neu ewch i www.peterstonfestival.nildram.co.uk

## Hydref

**Gwener 17 a Sadwrn 28 – Calan Gaeaf yng Ngerddi Dyffryn**
Digonedd o lwybrau dychryn a storïau arswyd – nid yw hyn ar gyfer y gwangalon! Bydd cystadlaethau gwisg ffansi hefyd. Byddwch yn barod i gael eich dychryn rhwng 6.30pm ac 8.30pm. Y tâl am fynd i mewn yw £3 (oedolion) a £2 (plant). Ffoniwch 029 2059 3328 am fwy o fanylion.

**Sadwrn 28 – Calan Gaeaf yng Nghosmeston**
**Pentref Canoloesol**
Pentrefwyr yn dweud hanesion am fywyd yn yr oesoedd canol a fydd yn ddigon i godi gwallt eich pen! Dewch i gael golwg ar ochr dywyll eu bywyd rhwng 6pm a 9pm. Ffoniwch 029 2070 1678 am fwy o fanylion.

**Sadwrn 28 a Sul 29 –**
**Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen**
Mae'r ŵyl yn ei thrydedd flwyddyn erbyn hyn. Am fod mwy na 70 o gyflenwyr cynnyrch ardderchog o Gymru a mannau eraill yn cymryd rhan eleni, mae'n addo bod yn llwyddiant ysgubol unwaith eto. Bydd Pabell Siampên; Cystadleuaeth Salon Culinaire; Gŵyl 'Cwrw Go Iawn'; gweithgareddau plant a llawer mwy.
**Am fwy o wybodaeth ffoniwch 7875 290428.**
**E-bost: info@cowbridgefoodanddrink.org**
**Gwefan: www.cowbridgefoodanddrink.org**

**Sul 29 a Mawrth 31 – Trên Arswyd Arbennig, Rheilffordd Ynys y Barri**
Bydd y trên arswyd yn cychwyn ar ei daith am 4pm a 7pm ar 29 Hydref ac am 5pm a 7pm ar 31 Hydref. Ffoniwch 01446 748816 am fanylion.

## Tachwedd

**Sadwrn 11 Tachwedd a Sadwrn 9 Rhagfyr – Teithiau Arswyd i'r Dewrion, Pentref Canoloesol Cosmeston**
Taith arswyd drwy'r pentref canoloesol yng ngolau cannwyll. Ydych chi'n ddigon dewr i'w mentro hi? Mae'n awr o daith sy'n cychwyn am 9pm a bydd cyfle i fwynhau gwydraid o gwrw twym o flaen tanllwyth mawr o dân wedyn. Mae'n rhaid i grwpiau gadw lle ymlaen llaw.
**Ffoniwch 029 2070 1678 am fwy o fanylion.**

Os hoffech hysbysebu digwyddiadau'ch grŵp neu'ch sefydliad chi yn Llais y Fro, ffoniwch 01446 709453/454 neu anfonwch neges e-bost i press@valeofglamorgan.gov.uk

## Mân newyddion

MAE Gardd Berlysiau'r Bont-faen – y gyntaf o'i math yng Nghymru – yn gam yn nes at gael ei chwblhau ar ôl i'r Cyngor drosglwyddo'r brydles ar gyfer y tir i Ymddiriedolaeth Gardd Berlysiau'r Bont-faen.

Mae'r ardd sy'n cynnwys planhigion iachaol, wedi'i phlannu yng nghanol y dref mewn gardd â chlawdd o'i chwmpas. Roedd yr ardd honno'n perthyn i'r Hen Neuadd ers llawer dydd sydd erbyn hyn yn Goleg Cymunedol y Bont-faen ac yn cael ei reoli gan y Cyngor. Bydd yr Ardd Berlysiau ar agor i'r cyhoedd yn yr hydref.

Mae'r Cyngor wedi rhoi prydles i'r Ymddiriedolaeth am 25 mlynedd, a bydd pob cyfle i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd ei mwynhau i'r eithaf.

Dywedodd Dan Clayton-Jones, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth: "Rydym ni wrth ein bodd bod y Cyngor yn cefnogi'n prosiect. Heb os nac onibai, bydd y prosiect unigryw hwn yn cael ei drysori ac yn rhoi llawer o bleser i bawb sy'n dwlu ar erddi.



LINDA RUSTON yw Swyddog Datblygu newydd Chwaraeon Anabledd Cymru yn uned Datblygu Chwaraeon, y Celfyddydau a Chwarae'r Cyngor.

Roedd Linda, sy'n cael ei hadnabod fel 'Rusty', yn Swyddog Gwasanaethau Dydd yng Nghanolfan Ddydd New Horizons y Barri cyn cael ei swydd bresennol. Gweithiai yn y fan honno gydag oedolion ag anabledd corfforol. Mae hefyd wedi gweithio yn Ysgol Gynradd Palmerston yn y Barri fel Cynorthwy-ydd Athro.

Bydd Linda'n arwain y gwaith o ddatblygu chwaraeon yn lleol mewn ffordd strategol ar gyfer pobl anabl. Bydd hefyd yn asesu'r galw lleol drwy gysylltu â thrigolion, sefydliadau a chlybiau. Gellwch gysylltu â hi drwy ffonio (01446) 704728 neu drwy anfon neges e-bost i lruston@valeofglamorgan.gov.uk









# Trigolion y Fro'n derbyn sialens ailgylchu

## Cwpan y Byd

Dangosodd cannoedd o drigolion y Fro eu bod 'ar y bêl' o safbwynt gwastraff yr haf yma, drwy addo dechrau ailgylchu. Gwnaethant hynny fel rhan o ymgyrch arbennig gan y Cyngor a oedd yn eu hannog i ailgylchu cymaint o ysbwriel ag sy'n bosibl yn ystod cystadleuaeth bêl-droed Cwpan y Byd.

Roedd eich cefnogaeth i'r ymgyrch yn amlwg wrth y pentwr o ddeunydd a gawsom i'w ailgylchu. Roedd y llwyth eleni'n 100 tunnell yn drymach nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd ac yn pwyso cymaint â 100 o geir.

Wrth ddiolch i'r trigolion am eu cefnogaeth, dywedodd Geoff Cox, yr Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Gweladwy: "Roedd trigolion yn cefnogi'r ymgyrch hon gant y cant ac roedd hynny'n amlwg wrth yr holl ddeunydd ailgylchu a gafodd ei gasglu. Gobeithio y bydd pawb yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth 'ymyl y pafin' er mwyn i ni gael cyrraedd y targedau ailgylchu anodd sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru".

Cafodd addewidion y trigolion eu cynnig ar gyfer cystadleuaeth tynnu tocyn, a Ted Gurd o'r Barri a fu'n ddigon ffodus i ennill y wobr – sef unrhyw grys pêl-droed.

Dewisodd Mr Gurd grys yr Eidal a gafodd ei gyflwyno iddo'n ddiweddarach gan y Cyng. Cox ac meddai: "Mae'n anrhydedd fawr derbyn crys enillwyr Cwpan y Byd. Mae ailgylchu'n rhan bwysig o'n bywyd beunyddiol am y bydd yn sicrhau dyfodol glanach i'n holl wyrion ac wyresau".

Yn ystod Cwpan y Byd roedd pobl yn defnyddio mwy o eitemau ailgylchadwy (caniau, poteli ac yn y blaen) nag erioed. Yn ôl yr amcangyfrif, prynodd dilynwyr pêl-droed cymaint â 35 miliwn o ganiau a photeli o gwrw, lager neu seidr a 62 miliwn o ddiodydd meddal yng Nghymru'n unig!

Os oes gennych ganiau, poteli, papur, plastig glân neu gardbord i'w hailgylchu, cofiwch eu gadael y tu allan i'ch tŷ i'r Cyngor eu casglu. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim a chewch chi ddim ffordd haws o ailgylchu na hynny'n unman!



*Ar ôl i'r Cyng. Geoff Cox (Yr Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Gweladwy) gyflwyno crys pêl-droed i'r enillydd Mr Gurd, roedd y ddau'n cael gêm o 'benio'r bêl'*

## Calendrau ailgylchu newydd

BYDDWN yn dosbarthu calendrau ailgylchu newydd i bob cartref yn y Fro'r mis hwn, felly byddwch yn barod i'w derbyn. Bydd y taflenni hyn nid yn unig yn egluro'r gwasanaeth 'ymyl y pafin' ond hefyd yn dangos i chi sut i wneud eich compost eich hun a defnyddio'n gwasanaeth casglu cribinion.

## Casglu plastig a chardbord

AR ôl i chi fynegi pryder ynglŷn â'r ffordd y bydd y Cyngor yn casglu'ch plastig a'ch cardbord ar gyfer eu hailgylchu, hoffem eich sicrhau bod yr holl ddeunydd hwn yn cael ei ailgylchu.

Cafodd sawl math o gerbyd ei brofi cyn lansio'r gwasanaeth fis Hydref diwethaf, a'r rhai mwyaf addas - yn enwedig o safbwynt trin plastig - yw lorïau tebyg i lorïau ysbwriel, sy'n gwasgu deunydd.

Eglurodd Clifford Parish (Rheolwr Gwaith Adran Rheoli Gwastraff a Glanhau): "Mae lori sy'n gwasgu deunydd yn gallu codi llawer mwy o lwyth ar y tro na lori gyffredin. Bydd hynny'n torri ar nifer y gweithiau y bydd yn rhaid gwagio'r lori ac yn golygu bod yr holl broses yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd lleol yn y pendraw. Mae'n hawdd didoli plastig a chardbord ar ôl eu dadlwytho, a bydd y contractwr (Biffa) bob amser yn gwneud hynny cyn hala'r deunydd i gael ei ailbrosesu. Gobeithio bydd mwy o drigolion yn gadael eu plastig a'u cardbord i'r Cyngor eu hailgylchu ar ôl clywed yr esboniad hwn".

Byddwn yn mynd â'r holl gardbord sy'n cael ei gasglu yn y Fro i felin er mwyn gwneud bocsys a deunydd pacio a phob math o eitemau cardbord eraill. Bydd y plastig yn cael ei brosesu yng Nghymru drwy ei droi'n ronynnau a fydd wedyn yn cael eu defnyddio i wneud eitemau fel conau traffig, deciau gardd, caniau dŵr a blychau ailgylchu.

Cyn gadael cardbord neu blastig y tu allan i'ch tŷ i ni eu casglu, cofiwch olchi'r plastig yn hollol lân a gwasgu'r cardbord ar ôl tynnu unrhyw ddeunydd pacio.

## Y newyddion diweddaraf o'r ysgolion



*O'r chwith i'r dde: Scott, Zoë a Louis yn cael cinio am ddim yn Ysgol Gynradd Tregatwg yn ystod y Diwrnod Ailgylchu*

MAE'R Cyngor yn dal i roi llawer iawn o bwyslais ar ddenu pobl ifanc ac ysgolion i gymryd rhan yn ei ymgyrch 'beth sydd yn eich bin?'.

Yn wir, mae'n glod i blant lleol a'u teuluoedd a'u hathrawon a fu mor barod eu cyfraniad, fod cymaint o brosiectau llwyddiannus ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu ysbwriel. Gwelwch enghreifftiau o rai o'n prosiectau diweddaraf yn yr erthygl hon.

Er mwyn dathlu ei statws newydd fel 'ysgol iach sy'n ailgylchu' cafodd ysgol feithrin Tregatwg ymweliad oddi wrth un o lorïau ailgylchu'r Cyngor yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu bodd â'r holl achlysur ac yn awyddus iawn i ddysgu mwy am y broses ailgylchu.

Bu'r Cyngor hefyd yn cefnogi Diwrnod Ailgylchu yn ysgol gynradd Tregatwg lle'r oedd llawer o hwyl a gweithgareddau i ledaenu'r neges bwysig am wastraff. Roedd y cinio am ddim yn boblogaidd iawn, ac yn ffordd glyfar o herio teuluoedd i ddarparu pecynnau bwyd heb yr holl ddeunydd pacio diangen.

Bu pwyllgor ailgylchu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, yn helpu'r Cyngor gydag arbrawf 'biniau ffrwythau gwastraff' yn ddiweddar. Biniau sy'n casglu gweddillion pecynnau ffrwythau'r plant er mwyn gwneud compost yw'r rhain, ac roedd yr holl gynllun yn hynod o lwyddiannus. Mae'r ysgol yn disgwyl casglu cymaint â 194 cilo o bilion (sy'n fwy neu lai'n cyfateb i 194 o fagiau o siwgr) mewn blwyddyn yn unig. Rydym yn gobeithio ehangu'r cynllun i ysgolion eraill yn ystod y flwyddyn.

Llwyddodd rhyw draean o ysgolion y Fro i gasglu naw tunnell o hen lyfrau Tudalennau Melyn ar gyfer y sialens ail-gychu sy'n cael ei chynnal ar y cyd bob blwyddyn gan Dudalennau Melyn a Choed Cadw. Ysgol gynradd Llancarfan oedd prif enillwyr y gystadleuaeth, ac er mwyn sicrhau ei buddugoliaeth roedd yn rhaid i'w disgyblion gasglu cymaint â 15 llyfr yr un!

Roedd dau brosiect celf arloesol yn dysgu i bobl ifanc droi'r ysbwriel yn eu bin yn eitemau defnyddiol. Cafodd y cyntaf – sef cynllun i lunio addurniadau Nadolig o hen boteli pop plastig – ei gynnal y llynedd ar lanfa Penarth. Groto gan blant ysgol lleol ar thema'r ffilm 'Charlie and the Chocolate Factory' oedd yr ail brosiect a weddnewidiodd ystafelloedd te Gerddi Dyffryn dros dro.

Mae Swyddog Ymwybyddiaeth Gwastraff, Sam Harrison yn edrych ymlaen at gydweithio ag ysgolion ar wahanol brosiectau unwaith eto eleni, a dywedodd: "Mae'r prosiectau hyn yn brawf y gellwch gael hwyl, dysgu neges bwysig a bod yn greadigol ar yr un pryd. Os ydych chi a'ch plant wedi cymryd rhan yn y prosiectau, hoffwn ddiolch o galon i chi. Drwy gydweithio, byddwn i gyd yn dod i ystyried beth sydd yn ein biniau a meddwl am ffyrdd o wastraffu llai ac ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint o'n hysbwriel ag sy'n bosibl".




VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Llais Y FRO




*Arwydd Llwyddiant – Rheolwr McDonalds yn y Barri, Huw Thomas, Prif Swyddog Gorfodi Denny White a'r Cyng. Geoff Cox, yr Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Gweladwy.*

# Dirwyon yn talu'r ffordd mewn ymgyrch ysbwriel

A Mae ymgyrch sy'n targedu ysbwriel y tu fewn a'r tu allan i siop bwydydd parod yn y Barri wedi bod mor llwyddiannus nes i'r Cyngor benderfynu ei chynnal mewn rhannau eraill o'r Fro.

Ers mis Mai, mae'r Cyngor yn cydweithio â McDonalds yn y Barri er mwyn ceisio rhwystro ysbwriel rhag pentyrru y tu fewn a'r tu allan i'w bwyty yn Heol Caerdydd.

Er bod staff McDonalds yn codi ysbwriel ym maes parcio'r bwyty bob hanner awr er mwyn ceisio ei gadw'n glir, mae tuedd o hyd i rai cwsmeriaid daflu eitemau wrth yrru neu gerdded yn y cyffiniau.

Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi codi arwydd wrth fynedfa'r safle yn y Barri i atgoffa'r cwsmeriaid hyn eu bod yn torri'r gyfraith ac yn debyg o gael eu cosbi.

Mae'n hawdd adnabod troseddwr wrth rif ei gar, a bydd ein tîm gorfodi'n rhoi hysbysiad o gosb benodol (sef dirwy o £75) i unrhyw un sydd wedi torri'r gyfraith. Wrth reswm, mae llawer llai o ysbwriel ar y safle ers i ni ddechrau'r ymgyrch.

Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol, Huw Thomas: "Fel cwmni, byddwn yn gwneud ein gorau i gadw cyffiniau'r siop yn lân. Yn anffodus, bydd hynny'n anodd ambell waith, am fod nifer fach o gwsmeriaid yn dal i daflu pacedi bwyd a diod yn y maes parcio er bod digon o finiau ysbwriel i'w cael. Roedd problemau go iawn ar yr heolydd o gwmpas y bwyty hefyd am fod pobl yn taflu ysbwriel o'u ceir. Serch hynny, ers i ni ddechrau cydweithio â thîm gorfodi'r Cyngor, mae'r sefyllfa wedi gwella'n aruthrol ac rwy'n siŵr y bydd hynny'n parhau".

Mae'r Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Gweladwy, y Cyng. Geoff Cox wrth ei fodd bod yr ymgyrch mor llwyddiannus, ac meddai: "Mae gan McDonalds finiau yn eu holl fwytai a meysydd parcio, felly does dim esgus i neb daflu ysbwriel. Mae'r sefyllfa yn y Barri wedi newid yn sylweddol ac mae cynlluniau i gymryd yr un camau mewn bwytai eraill yn y Fro sy'n gwerthu bwydydd parod. Gofynnwn i drigolion gefnogi'r cynllun hwn am y gallai'r arian sy'n cael ei wastraffu ar glirio ysbwriel gael ei ddefnyddio i ddibenion llawer gwell wrth wella gwasanaethau".



*gweithiwr Rheoli Gwastraff, Gary Gordan yn tynnu graffiti yn un o barciau'r Fro.*

## Bws sy'n herio troseddwyr

MAE Adran Rheoli Gwastraff y Cyngor wedi llwyddo i gael nawdd oddi wrth Bartneriaeth Bro Ddiogelach ar gyfer minibws a fydd yn helpu i gadw'n cymdogaethau'n lân. Bydd y Cyngor a'i bartneriaid diogelu cymunedau'n defnyddio'r bws er mwyn trin troseddau'n erbyn yr amgylchedd ym mhob rhan o'r Fro gan ddechrau gyda graffiti. Gellwch helpu drwy roi gwybod i Adran Gwasanaethau Gweladwy'r Cyngor am unrhyw graffiti a welwch. Ffoniwch y rhif isod neu ewch i dudalen 'Report a Problem' ar wefan y Cyngor www.valeofglamorgan.gov.uk.

## Ar y ffordd i strydoedd glanach

MAE safon gwaith glanhau yn strydoedd y Fro'n cael ei adolygu ar hyn o bryd o dan y System Rheoli Archwilio Amgylcheddol Lleol.



Bydd y System Reoli a gafodd ei datblygu gan Gadw Cymru'n Daclus, yn helpu awdurdodau lleol i weld lle'n union mae angen gwella gwasanaethau ac yn sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau'n effeithiol.

Bydd y Cyngor a Chadw Cymru'n Daclus yn cynnal arolygon yn rheolaidd er mwyn monitro nifer o broblemau sy'n berthnasol i wasanaethau glanhau gan gynnwys ysbwriel, baw ci, graffiti, posteri anghyfreithlon a biniau gorlawn. Caiff y wybodaeth honno ei defnyddio wedyn er mwyn sicrhau bod safonau'n parhau i godi.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Gweladwy, Miles Punter: "Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried defnyddio'r System Reoli er mwyn mesur perfformiad cynghorau Cymru, ac rydym yn falch i ni achub y blaen ar bawb arall a dechrau ei defnyddio eisoes. Rydym yn benderfynol o godi safonau glendid ym mhob rhan o'r Fro a bydd y System yn helpu yn hynny o beth am ei bod yn asesu ein perfformiad o safbwynt annibynnol. O ganlyniad, byddwn yn gallu cynllunio'n gwasanaethau a sicrhau bod safonau'n codi flwyddyn ar ôl blwyddyn".



*Pennaeth Gwasanaethau Gweladwy, Miles Punter yn rhoi help llaw i Bob Hooper a Mark Steen sy'n ysgubo'r strydoedd yng nghanol tref y Barri.*


Dewch i Wyl Bwyd a Diod y Bont-faen (29-30 Hydref) a mwynhau arddangosiadau coginio, gweithgareddau i blant, arddangosfeydd, cerddoriaeth fyw a marchnad sy'n gwerthu cynnyrch lleol traddodiadol

## Testunau archwilio

POBL ddigartref, trais yn y cartref a meithrinfeydd yw'r testunau diweddaraf i gael sylw manwl gan Bwyllgorau Archwilio'r Cyngor.

Mae'r arolwg ar bobl ddigartref yn y Fro'n cael ei gynnal gan bwyllgor Lles a Diogelwch Cymunedol y Cyngor fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2005/06 ac yn dadansoddi llawer iawn o wasanaethau perthnasol.

Trefnwyd gweithdai gyda chynrychiolwyr fforwm pobl ddigartref, cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau ac ymweliadau â safleoedd er mwyn cael deall y mater yn well a'i archwilio mor fanwl ag sy'n bosibl.

Bellach, mae'r pwyllgor ar fin ymgynghori ynghylch yr arolwg am y tro olaf a chynnig argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau. Bydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol i'r pwyllgorau archwilio yn ystod mis Hydref.

Pwyllgor Lles a Diogelwch Cymunedol sydd hefyd yn arwain yr arolwg ar drais yn y cartref.

Arolwg sy'n asesu cyfraniad y Cyngor o safbwynt trin a rhwystro trais yn y cartref yw hwn. Fel yr arolwg ar bobl ddigartref, mae'n cael ei gynnal drwy gydweithio â gwahanol asiantaethau partner ar draws y Fro a defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi cael profiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r broblem. Bydd y pwyllgor yn trefnu gweithdai gyda fforwm trais yn y cartref ac yn cyfweld â phobl sydd wedi dioddef trais yn y cartref. Caiff canlyniadau'r arolwg eu cyflwyno i'r pwyllgorau archwilio yn ystod mis Hydref.

Mae'r trydydd arolwg yn ystyried y cyfle sydd gan bobl i fanteisio ar addysg feithrin yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, a bydd yn ceisio mesur y ddarpariaeth bresennol a'r galw sydd amdani.

